ERBERY, WILLIAM (1604 - 1654), Piwritan ac Annibynnwr

Enw: William Erbery
Dyddiad geni: 1604
Dyddiad marw: 1654
Plentyn: Dorcas Erbery
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Piwritan ac Annibynnwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Tudur Jones

Ganwyd yn Roath-Dogfield ger Caerdydd yn fab i fasnachwr (*Brasenose Coll. Reg. I*, 139). Enillodd ei B.A. o Goleg Brasenose, Rhydychen, 29 Hydref 1623 (*Alumni Oxonienses*); fe'i derbyniwyd i Goleg Queens ', Caergrawnt, yn 1624, a chafodd ei M.A. yno yn 1626. Tanysgrifiodd am urddau diacon ym Mryste, 23 Rhagfyr 1626 (*Alumni Cantabrigienses*) ac ar ôl bod yn gurad yng Nghasnewydd apwyntiwyd ef yn ficer eglwysi'r Santes Fair a Sant Ioan, Caerdydd. Bu yno o 7 Awst 1633 hyd Gorffennaf 1638 (Foster, *Index*, N.L.W.).

Daeth ef a Walter Cradoc i wrthdarawiad ag esgob Llandaf am eu gweithgarwch Piwritanaidd yn 1634. Ar 20 Hydref 1635 ymddangosodd Erbery gyda William Wroth gerbron Llys yr Uchel Gomisiwn (gweler Richards, *Cymru a'r Uchel Gomisiwn*, 39). Ildiodd Wroth i'r esgob ond ymddiswyddodd Erbery.

Yn ystod y Rhyfel Cartrefol bu'n gaplan yng nghatrawd Skippon (Ch. Love, *Vindication*, 36). Ar ôl cwymp Rhydychen, ceir ef yno yn gwrthwynebu'r Presbyteriaid, ac ar 11 Ionawr 1646-7 yn dadlau â Francis Cheynell yn eglwys y Brifysgol. Yn Ionawr 1648 cymerodd ran yn y dadleuon ar yr ' Agreement of the People ' (*Clarke Papers*, II, 171-5).

Gyda phasio Deddf y Taenu dychwelodd i Gymru gan weithio ym Morgannwg a derbyn £225 am ei lafur (Walker MS. *c.* 13, f. 17), ond yn niwedd 1651 gwrthododd dderbyn ychwaneg o dâl gwladwriaethol (*The Sword Doubled*, 3). Mewn athrawiaeth gogwyddai at ddaliadau cyfriniol ac yr oedd yn ddisgybl (beirniadol) i Jacob Boehme. O ganlyniad gw siwyd ef gerbron y ' Committee for Plundered Ministers,' 8 Chwefror 1652, i ateb am ei heresïau (*Clarke Papers*, ii, 233).

Yr oedd cysylltiadau agos rhyngddo a'r Piwritaniaid Cymreig, a chyfrifai Morgan Llwyd ef yn athro iddo. Beirniadai ei gydgrefyddwyr yn llym, ac ni fynnai ledaenu addysg y prifysgolion. Ar 12 Hydref 1653 yr oedd Erbery a John Webster yn dadlau'n gyhoeddus yn erbyn addysg ffurfiol yn Lombard Street, Llundain. (Wood, *Athenae*, iii, *c.* 361).

Bu Erbery farw yn Llundain yn Ebrill 1654, ond ni wyddys fan ei gladdu. Trodd ei ferch Dorcas at y Crynwyr a bu'n dilyn James Nayler (*Mercurius Politicus*, Rhif. 350 (7624)).

Y mae ysgrifeniadau pwysicaf Erbery wedi eu crynhoi yn y gyfrol *The Testimony of William Erbery left upon Record for the Saints of Succeeding Ages ...* (London, 1658). Nid yw *Apocrypha ...* (London, 1652) yn y casgliad hwn.

Awdur

Y Parchedig Brifathro Robert Tudur Jones, (1921 - 1998)

Ffynonellau

Erbery, *The testimony of William Erbery left upon record for the saints of suceeding ages* (1658)

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20)

The Clarke Papers (1891–1901)

Christopher Love, *A Cleare and Necessary Vindication* (1651)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 52039605

Wikidata: Q8008626

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu